

PWYLLGOR	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
TEITL	Adroddiad Cynnydd – Cadw'r Budd yn Lleol
DYDDIAD	8fed o Rhagfyr 2022
ARWEINYDD PROSIECT	Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
AELOD CABINET	Cynghorydd Menna Jones

Cyflwynwyd yr Adroddiad hwn yn dilyn cais y Pwyllgor Archwilio i dderbyn diweddariad ar gynnydd un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor sef **Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol**.

Pwrpas y prosiect:

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac yn ennill y cytundebau hynny. Hynny er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yng Ngwynedd er budd yr economi lleol.

Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi cyflwyno trefniadau caffael newydd yn y Cyngor ers Ebrill, 2016 ac wedi sefydlu Timau penodol sydd yn gyfrifol am gydlynu gweithgareddau caffael. Rydym yn galw'r trefniadau caffael hyn yn 'Rheolaeth Categori'. Mae'r Timau Categori hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau Caffael mewn tri maes penodol sef i) Amgylchedd, ii) Pobl a iii) Corfforaethol. Lleolir y timau hyn o fewn adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Oedolion, ac Amgylchedd a maent hefyd yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Caffael canolog sydd o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Dros y dwy flynedd a hanner diwethaf mewn ymateb i heriau'r pandemig mae'r Timau Categori a'r Gwasanaeth Caffael canolog wedi bod yn rhan o drefniadau sicrhau cyflenwadau Offer Diogelwch Personol ('PPE'). Mae'r tri Thîm Categori wedi bod yn rhan allweddol o'r trefniadau hynny ac yn parhau i fod ynghlwm a'r elfennau prynu, dosbarthu a rheoli stoc. Mae'r Tîm Categori Pobl yn ogystal, yn delio'n uniongyrchol gyda'r cartrefi henoed a gwasanaethau cymdeithasol ehangach. Mae hynny wedi arwain at leihad yn y gweithgarwch Caffael yn gyffredinol dros y cyfnod hynny sydd yn anorfod am gael effaith ar gynnydd y prosiect yn y tymor byr.


Mae'r sefyllfa erbyn hyn wedi tawelu ond yr angen i gynnal a dosbarthu PPE yn parhau. Mae'r Tim Categori (PaB) yn parhau i rheoli'r storfa PPE yn Nghibyn.

Mesurau Llwyddiant: Cadw'r Budd yn Lleol:


Y prif fesur er mwyn mesur llwyddiant y prosiect hwn ydi:

- Y canran o wariant lleol caffael gyda busnesau o fewn y Sir (Cynlluniau Gwariant Cyfalaf a Refeniw).

Gweler isod graff sy'n arddangos perfformiad y Cyngor dros y 5 mlynedd diwethaf:



Fel y gweler o'r uchod, mae'r canran wedi cynyddu 3% dros y cyfnod ac o ganlyniad mae ein gwariant lleol wedi cynyddu o £56m yn 2017/18 i £85m yn 2021/22. Mae hyn hefyd yn sgil bod y cyfanswm gwariant caffael hefyd wedi cynyddu o £97m yn 2017/18 i £140m yn 2021/22.



Gwelwn wariant cyfalaf yn gadael y Sir gan nad oes gan mwyafrif o ddarparwyr lleol y capasiti i gwblhau'r prosiectau. Gwelwn cynnydd a gostyngiad yn y canran ynghlwm â cystadleuaeth am brosiectau cynnal a chadw adeiladau a ffyrdd.

O ran dosbarthiad ar draws y Timau Categori, gellid gweld hynny yn y tabl isod:

	Canran Lleol – Gwariant Refeniw yn unig			
Tîm Categori	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Corfforaethol	59% (£22.8m)	55% (£23.3m)	55% (£24.18m)	57% (£26m)
Amgylchedd	40% (£6m)	35% (£5.5m)	38% (£5.46m)	35% (£6.4m)
Pobl	74% (£38.2m)	72% (£42.1m)	71% (£48.36m)	69% (£52.5m)
Cyfanswm Gwariant Lleol	£67m	£71m	£78m	£85m

Fel y gwelir o'r tabl, mae'r perfformiad yn amrywio fesul Tîm Categori ond mae hynny oherwydd natur y categorïau prynu perthnasol. Er enghraifft, mae mwyafrif y gwariant o fewn y Tîm Categori Pobl yn ymwneud â chomisiynu darpariaeth gofal ac mae'r mwyafrif o'r darparwyr wedi eu lleoli yng Ngwynedd. O ran y Tîm Categori Amgylchedd, nid oes cyflenwyr lleol ar gael o ran deunyddiau craidd i'r maes Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac felly, mae'r gwariant lleol yn is o ganlyniad.

Er mwyn codi'r canran yma mor uchel ag sy'n ymarferol bosib, mae gan yr Adran ystod o ffrydiau gwaith penodol sydd at ei gilydd, yn cyfrannu at wella'r canran o wariant lleol caffael.

Ceir grynodeb o'r ffrydiau gwaith hyn yma:

Cynlluniau Cefnogi'r Farchnad

Mae ystod o gynlluniau ar waith er mwyn cefnogi'r farchnad i gyflwyno tendrau am waith. Mae rhain yn cynnwys cydweithio gyda'r Adran Economi a Chymuned er mwyn adnabod pa gymorth sydd ei angen ar gyflenwyr lleol. Ar hyn o bryd, mae'r timau yn cefnogi drwy:

- Paratoi'r farchnad gan drefnu a chynnal sesiynau cwrdd â'r prynwyr gyda amryw o gytundebau adeiladwaith, priffyrdd, cludiant a meysydd gofal.
- Cefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgil unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant fel lleihau ei ôl troed carbon a hybu cyflogaeth foesebol ac arfer orau tendro.
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y farchnad o'r dull caffael gwerth cymdeithasol mae'r Cyngor yn ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae cyfranogiad y farchnad yn amrywio o gynllun i gynllun ond ar y cyfan, mae'n hynod anodd cael y farchnad i ymrwymo i fanteisio ar yr holl gefnogaeth sydd ar gael.

Mae rhwystredigaethau'r farchnad leol i gynyddu'r canran lleol, yn bennaf oherwydd diffyg awydd, arbenigedd ac adnodd i ymgeisio a cyflawni contractau'r Cyngor.

Darlun o'r farchnad leol

Rydym wedi gallu cwblhau dadansoddiad o'r fath o fusnesau sydd yn bodoli o fewn y Sir.

Mae ein cyflogwyr mwyaf yn cynnwys:

- Sector Gyhoeddus (Cyngor, Bwrdd Iechyd, Addysg Pellach)
- Sector Archfarchnad a Bwyd
- Sector Twristiaeth

Mae'r sectorau gyda'r nifer fwyaf o fusnesau lleol yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth
- Adeiladwaith
- Llety a Bwyd

Ein bwriad yw cynnal y math yma o ddadansoddiad i weld os oes patrwm yn ymddangos dros gyfnod o amser ac os yw hyn yn peryglu risg cyflenwi neu adnabod cyfleoedd pellach i brynu'n fwy lleol.

Gwariant sydd yn gadael y Sir

O'n dadansoddiad o wariant refeniw caffael y Cyngor, dyma enghraifft o'r prif feysydd ble mae'r gwariant caffael yn gadael y Sir.

Enw'r Categori	Cyfanswm Gwariant	Canran Lleol	Gwariant yn gadael y Sir
Gofal Preswyl Oedolion	£32,328,608	62%	£12,303,927
Offer TG- Meddalwedd, Caledwedd, Telathrebu a Reprograffeg	£4,786,740	0.1%	£4,784,125
Gofal Preswyl Plant	£ 2,958,533	0%	£2,958,533
Cynnal a Chadw Adeiladau	£6,579,004	70%	£1,939,671
Amgylchedd	£2,054,999	12%	£1,807,772
Partiau Cerbydau	£1,428,219	4%	£1,364,472
Gofal Cartref	£9,787,793	88%	£1,161,843
Cynnal Ffyrdd	£1,704,474	36%	£1,087,316
Tanwydd Cerbydau	£2,076,238	53%	£966,609
Ymgynghorwyr Peirianeg	£709,500	14%	£610,833
Peirianeg Sifil	£2,844,435	80%	£575,469
Bwyd ac Arlwyo	£2,335,073	76%	£571,068
Rheoli Gwastraff-Ailgylchu	£1,246,506	60%	£497,558
Goleuadau Stryd a Phriffyrdd	£ 451,780	0%	£451,780
Hurio Offer	£1,198,279	69%	£368,790

Caffael Arloesol - Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol

Mae'r ffrwd gwaith yma yn un newydd ac sy'n destun peilot ar hyn o bryd. Y nod ydi cyflwyno methodoleg asesu tendrau newydd drwy'r Cyngor i'r dyfodol fydd yn galluogi'r Cyngor i gynnwys mesurau buddiannau cymdeithasol i Wynedd fel sail er mwyn asesu'r tendrau.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu asesu tendrau gan ddefnyddio cyfuniad o bris, ansawdd a buddiannau cymdeithasol. Mae hyn yn cyflwyno agwedd sgorio newydd sy'n golygu bod angen i gwmnïau nodi pa fuddiannau y gallent eu cyflwyno i'r Sir uwchben cyflawni'r gofyn craidd y gytundeb e.e. gall cwmnïau gynnig cyflogi staff, darparu cynllun prentisiaethau neu darparu cyfleon profiad gwaith ayb. Gall hefyd gynnwys agweddau megis ymrwymiad i leihau effaith amgylcheddol y cynnyrch a gyflenwir.

Bydd defnyddio'r elfen buddiant cymdeithasol yn golygu bod gan cwmnïau lleol gyfleon newydd er mwyn arddangos eu cyfraniad i'r economi leol o dderbyn cytundeb gan y Cyngor.

Mae'r peilot a gyfeirir ato uchod bellach wedi cyrraedd sefyllfa ble mae yna ddau cytundeb wedi gyhoeddi a'i wobrwyo. Mae'r cytundeb cyntaf wedi ei gynnig i gyflenwr gan ddefnyddio'r methodoleg newydd. Yn yr achos yma, cyfrifwyd bod gwerth y gytundeb yn £181k ond cyfrifwyd y buddiant cymdeithasol i Wynedd fod yn £105k.

O ganlyniad, mae'r cwmni buddugol wedi ymrwmo i:

- gyflogi 3 swyddog sy'n byw yng Ngwynedd,
- cynnal 4 sesiwn hyfforddiant i fyfyrwyr gofal cymdeithasol,
- ddarparu 4 wythnos o brofiad gwaith i 2 myfyriwr,
- gynnig 20 awr o amser gwirfoddol i gefnogi elusennau lleol
- ymrwmo i 2.5 awr yr wythnos i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ymhellach.

Mae'r ail gytundeb peilot wedi gwblhau ond nid yw ymateb y farchnad wedi bod cystal â'r peilot gyntaf. Serch hyn, mae'r cwmni buddugol wedi cynnig rhodd o £1,000 i'w rannu ymysg dau Fanc Bwyd yn y Sir. Mae hyn wedi amlygu'r angen i wneud gwaith pellach i annog a chefnogi'r farchnad.

Mae'r trydydd a'r peilot olaf wedi gyhoeddi ac yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd.

Heb amheuaeth, pe na fyddai'r Cyngor wedi cynnwys y cymal Buddiant Cymdeithasol yn y tendr, ni fyddai'r buddion hyn wedi bod ar gael i Wynedd. Mae hynny felly, yn arwydd o'r potensial posib o ddefnyddio'r fethodoleg newydd ar draws y Cyngor.

Y bwriad yn awr ydi parhau i weithredu'r peilot gan adnabod cyfleon ar draws y tri Tîm Categori Caffael.

Datblygu Mesurau Newydd

Rydym yn ceisio ehangu ar y mesurau perfformiad i gael darlun cyflawn effaith ein gweithgaredd caffael. Yn ychwanegol i fesur gwerth am arian a canran lleol, rydym wedi cynnal dadansoddiad yn unol a'r fformiwla cenedlaethol. Er mae'r fformiwla yn seiliedig ar wariant, maen amlygu ble mae'r Cyngor yn debygol o gynhyrchu'r swm mwyaf o garbon yn sgil ein gweithgareddau caffael.

Dyma'r dadansoddiad dros y tair mlynedd diwethaf:

	2019-20	2020-21	2021-22
Cyfanswm CO2	40,639 Tunnell	39,959 Tunnell	49,246 Tunnell

Categoriâu gyda'r ôl troed carbon uchaf	2019-20	2020-21	2021-22
Gofal Cartref	14,930 Tunnell	17,033 Tunnell	20,771 Tunnell
Cludiant (Tacsis a Bysiau)	6,591 Tunnell	5,130 Tunnell	6,431 Tunnell
Cynnal a Chadw Adeiladau a Tirwedd	4,125 Tunnell	4,050 Tunnell	4,032 Tunnell

Mae'r prif gynnydd yn ffigyrau CO2 yn 2021/22 oherwydd:

- Cynnydd yng nghostau gwasanaethau Gofal sydd yn llwytho'r cyfanswm carbon. Mae meysydd Gofal Preswyl, Nyrsio a Tai a Chefnogaeth wedi gweld y cynnydd mwyaf.
- Cynnydd yn pryniant trafniadaeth cyhoeddus a thacsi (cludiant ysgolion) a pryniant bwyd. Mae rhain yn feysydd roedd yn Cyngor yn gwario llai dros gyfnod COVID oherwydd rheolau pellhau cymdeithasol. Mae'r cynnydd hefyd ynghlwm â chostau yn cynyddu.

Mae categorïau eraill gyda ôl troed carbon sylweddol yn cynnwys Bwyd (2,288 tonn) ac Offer Technoleg Gwybodaeth (1,854 tonn) y flwyddyn.

Y camau nesaf

Cynlluniau Cefnogi'r Farchnad

- Parhau gyda'r ystod o gynlluniau cefnogi busnesau lleol gan geisio asesu'r effaith y cefnogaeth hyn.
- Dadansoddi'r fath o fusnesau sydd yn bodoli o fewn y Sir gan geisio adnabod cyfleoedd i brynu'n lleol.

Caffael Arloesol - Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol

- Cwblhau'r trydydd cytundeb peilot dros y gaeaf gan nodi ac ystyried y gwersi a ddysgwyd.
- Cyflwyno argymhelliad i gyflwyno'r drefn a camau gweithredol i wneud hyn yn y flwyddyn newydd.
- Gwneud asesiad o feysydd gwariant i geisio adnabod cyfleoedd i gynnwys mesurau cymdeithasol.

Mesurau Perfformiad Caffael

- Datblygu ein mesurau caffael i gynnwys materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Casgliad

I grynhoi felly, mae cynnydd da wedi ei wneud dros y pum blynedd diwethaf er mwyn cynyddu'r canran o wariant y Cyngor sy'n aros yn lleol. Fodd bynnag, mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn rhai heriol iawn ac wedi llesteirio gallu'r Cyngor i wella'r ganran hynny yn uwch. Bydd y gwaith sydd ar droed i adfer yr economi a gweithgareddau dydd i ddydd yn golygu daw cyfleon i wella'r sefyllfa ond bydd manteisio ar hynny yn ddibynol ar allu'r Cyngor i gynnig y cyfleon hynny ac os fydd busnesau lleol Gwynedd mewn sefyllfa i ymateb.